Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Bryn Ivor Lodge**

**Cartref Gofal Bryn Ivor Lodge**
**Bryn Ivor Lodge**
**Heol Casnewydd**
**Caerdydd**
**CF3 2UQ**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

11/8/2022
9 Awst 2022, 11 Awst 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Bryn Ivor Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Barchester Healthcare Homes Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 80 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 27 Medi 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae Bryn Ivor Lodge wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaethau gofal gyda gofal nyrsio i hyd at 80 o bobl. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth arbenigol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, yn y cymunedau 'hel atgofion'. Dywedodd y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u hanwyliaid wrthym am y gofal a'r cymorth o ansawdd uchel iawn y maent yn eu derbyn.

Mae'r cynlluniau personol wedi'u hysgrifennu'n glir ac yn cyfarwyddo'r gweithwyr gofal ar y ffordd orau i gefnogi'r bobl. Caiff cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion a dyheadau cyfredol y bobl. Cedwir cofnodion yn gywir ac yn gyson.

Roedd y cartref wedi'i adeiladu'n bwrpasol, mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn ac mae'n darparu awyrgylch moethus, cartrefol a hamddenol i bobl fyw ynddo.

Mae'r gwasanaeth wedi'i drefnu'n arbennig ac yn elwa ar reolaeth a throsolwg cadarn. Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau gweithio yn y cartref ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn yn eu rolau. Gwelsom rai bylchau yng nghofnodion y staff y disgwyliwn i'r darparwr fynd i'r afael â nhw. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd ac yn adnabod y staff gofal a'r preswylwyr yn dda.

## Llesiant

Mae gan y bobl gymaint o reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd â phosibl. Gwelsom y bobl yn cymdeithasu â'i gilydd ac yn ymgysylltu â'r gweithwyr gofal. Mae'r bobl yn dewis ble i dreulio eu hamser. Gwelsom fod yn well gan rai o'r bobl aros yn eu hystafelloedd, tra’r oedd llawer yn treulio amser yn yr ardaloedd cymunol.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn cael cyfarfodydd tŷ rheolaidd i fynegi eu barn ar y ffordd y caiff y cartref ei redeg. Mae'r cartref yn croesawu ymwelwyr yn unol â'r canllawiau cyfredol ac asesiadau risg y darparwr. Roedd y bobl a'u hanwyliaid y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y cartref a'r staff gofal. Dywedodd un person wrthym “*Dwi wrth fy modd yma. Mae'r staff i gyd yn garedig ac ystyriol iawn. Mae digon o staff o gwmpas bob amser ac maen nhw'n dda iawn hefyd. Dwi'n hoffi'r bwyd yn fawr iawn a dwi bob amser yn gorffen fy mhlât, mae amrywiaeth dda iawn o brydau ar gael. Bydd y gegin bob amser yn coginio beth bynnag dwi eisiau os nad ydw i'n ffansïo unrhyw beth ar y fwydlen.”* Dywedodd aelod o deulu wrthym am ei anwylyd “*Mae ei gynnydd wedi bod yn aruthrol ers dod yma. Mae'r gofal yn broffesiynol ac yn fwy na gofal, maen nhw’n rhagorol. Rwy'n cael atebion ar unwaith pryd bynnag y bydda i’n gofyn sut mae fy mherthynas, naill ai wrth ymweld neu dros y ffôn. Y staff dwi'n eu gweld yw'r un wynebau bob tro, sy'n galonogol. Mae’r staff yn ymddangos yn brofiadol ac yn wybodus iawn.”*

Mae'r bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau ystod o asesiadau risg a chynlluniau personol, sy'n nodi anghenion gofal a chymorth pob person a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain.

Mae gan y bobl eu hystafelloedd eu hunain, ac mae gan bob un ohonynt gyfleusterau cawod en suite â digon o le, sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac maent wedi eu haddurno’n bersonol i'w chwaeth unigol. Mae gan y cymunedau ‘hel atgofion’ focsys chwaethus y tu allan i bob ystafell sy’n cynnwys llun cyfarwydd neu atgof o atgofion melys y person hwnnw.

Mae'r gwasanaeth yn helpu i amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae’r gweithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu oedolion sydd mewn perygl ac yn deall eu rôl o ran amddiffyn y bobl. Mae gan y gwasanaeth bolisi diogelu sy'n adlewyrchu'r canllawiau cyfredol ac sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth rhagorol yn ôl yr angen. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn sylwgar ac yn cefnogi'r bobl. Mae anghenion a hoffterau gofal pob person wedi'u dogfennu'n glir, ac mae'r staff gofal yn cyrchu'r wybodaeth hon i lywio eu trefniadau arferol dyddiol. Mae cynlluniau'n cynnwys hanes cymdeithasol manwl pob person fel y gall staff gofal ddod i'w hadnabod nhw a'u bywydau cyn dod i'r cartref. Caiff cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r bobl a'u hanwyliaid i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu anghenion a dyheadau cyfredol y bobl. Cedwir cofnodion cywir a manwl gan y staff gofal i ddangos tystiolaeth bod y bobl yn cael eu cefnogi fel y disgrifir yn eu cynlluniau personol.

Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ôl yr angen. Mae'r bobl wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu lleol. Cedwir cofnodion yn y nodiadau dyddiol o bob apwyntiad, a chanlyniad i'w hadolygu yn ôl yr angen. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gynnal pwysau iach ac mae deietau’n cael eu hadolygu pan fo angen. Mae diodydd ar gael yn rhwydd i'r bobl trwy gydol y dydd.

Mae'r cydlynwyr gweithgareddau yn trefnu gweithgareddau i’r bobl ac yn annog y bobl i gymryd rhan os ydynt yn dewis gwneud hynny. Gwelsom y bobl yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau yn ystod ein harolygiad, gan gynnwys sgitls a thennis balŵn. Roedd yn well gan rai o'r bobl beidio ag ymuno ond gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau gwylio eraill. Gwelsom dystiolaeth o bobl lai abl yn cael cymorth un-i-un rheolaidd i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis, gan gynnwys adweitheg, tylino'r dwylo, a thriniaethau harddwch. Mae'r gwasanaeth yn dilyn model gofal 'Namaste' ar gyfer y bobl sy'n byw gyda dementia datblygedig, mae hwn yn canolbwyntio ar y person yn hytrach nag ar broses ac fe'i hystyrir yn arfer gorau.

Mae'r bobl yn mwynhau eu profiad o brydau bwyd yn fawr, sy'n amser dymunol, hamddenol a chymdeithasol o'r dydd. Dywedwyd wrthym fod ansawdd a dewis y prydau yn rhagorol; caiff y bobl eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl a chânt eu cefnogi pan fydd angen.

Mae systemau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddiogel o fewn y gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn rhoi cymorth i bobl o ran eu meddyginiaeth, sy'n helpu i gynnal eu hiechyd. Mae'r cofnodion y gwnaethom eu gwirio wedi'u cwblhau'n gywir ar y cyfan, a rhoddodd y rheolwr sicrwydd i ni y byddai rhai bylchau yn y cofnodion tymheredd yn cael sylw.

Mae gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn dda. Mae'r gweithwyr gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol yn unol â'r canllawiau cyfredol. Mae'r staff yn cael eu profi am

COVID-19 yn rheolaidd. Gofynnwyd i ni am dystiolaeth o ganlyniad prawf llif unffordd negatif a chymerwyd ein tymheredd cyn mynd i mewn i'r cartref.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref wedi'i adeiladu'n bwrpasol ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon ragorol. Mae'r amgylchedd yn olau ac yn gartrefol drwyddo draw. Mae'r cartref yn elwa o fynedfa fawr groesawgar ac mae ganddo goridorau eang sydd â system aerdymheru, mae'n lân, yn daclus ac wedi'i drefnu'n dda. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn cael eu haddurno ag eitemau personol at eu chwaeth eu hunain, mae gan unigolion luniau o anwyliaid, lluniau, blodau, ac addurniadau sy'n helpu i greu ystafell gyfarwydd a chartrefol. Mae gan bob ystafell wely gyfleusterau cawod en suite. Mae digon o le yn yr ystafelloedd ymolchi cymunol, ac mae pob un yn cynnwys bath jacuzzi a chawod ar wahân.

Mae gan y cymunedau ‘hel atgofion' goridorau 'canfod y ffordd' sy'n darparu thema wahanol ar gyfer pob coridor, un â thema gardd a'r llall thema anifeiliaid. Mae’r amgylchedd hynod greadigol hwn yn helpu'r bobl sy’n byw gyda dementia i ymgyfarwyddo â gwahanol ardaloedd o’u hamgylch.

Mae palmant gwastad dymunol wedi'i osod tu allan, sy'n caniatáu tro o amgylch ardaloedd lawnt yr ardd. Mae pob un o'r ystafelloedd gwely ar y llawr daear yn agor allan i'w gardd fechan eu hunain sy'n arwain at yr ardd gymunol gyda choed aeddfed a gwelyau blodau uchel. Mae gan y llawr cyntaf ardaloedd balconi eang sy'n cynnwys planhigion mewn potiau a seddi awyr agored. Gwelsom fod y dodrefn awyr agored yn gadarn ond wedi treulio braidd. Rhoddodd y rheolwr sicrwydd i ni fod y rhain i gyd wedi cael eu hail-baentio yn dilyn ein harolygiad.

Mae'r bobl yn elwa ar amgylchedd diogel; cedwir y drws ffrynt dan glo. Gwelsom y ffeil cynnal a chadw a gwelsom fod yr holl gyfarpar defnyddiol wedi'i wirio i sicrhau ei fod yn ddiogel. Cynhelir archwiliadau rheolaidd o'r larymau tân yn y cartref ac mae'r staff wedi'u hyfforddi mewn diogelwch tân. Mae gan y bobl sy'n byw yn y cartref gynllun personol gadael mewn argyfwng sy'n rhoi gwybodaeth i'r staff ar sut i gefnogi'r bobl i adael yn ddiogel mewn argyfwng. Mae'r cartref wedi cael sgôr pum seren gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n golygu bod safonau hylendid yn dda iawn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn elwa ar arweinyddiaeth a rheolaeth hynod effeithiol. Mae trefniadaeth cofnodion ar draws y cartref yn arbennig. Gwelsom y rheolwr a'r dirprwy reolwr yn rhyngweithio'n gynnes â'r bobl trwy gydol ein hymweliadau arolygu. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym fod y tîm rheoli yn hawdd siarad â nhw ac yn gefnogol iawn. Mae'r staff hefyd yn gwerthfawrogi'r anogaeth a roddir iddynt i ddysgu a datblygu yn eu gyrfaoedd.

Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae nifer digonol o weithwyr gofal ar ddyletswydd i gefnogi'r bobl mewn modd hamddenol a phwyllog. Gwelsom werth pum wythnos o rotâu staff sy’n adlewyrchu bod niferoedd digonol o staff ar waith yn gyson.

Mae’r gweithwyr gofal yn cael goruchwyliaeth reolaidd gan eu rheolwr llinell. Mae’r cymorth un-i-un hwn yn rhoi cyfle i aelodau’r staff drafod unrhyw bryderon neu anghenion hyfforddi sydd ganddynt ac i’w rheolwr llinell roi adborth ar eu perfformiad gwaith. Mae’r cyfathrebu rhwng y tîm yn dda ac mae’r gweithwyr gofal yn mwynhau eu swyddi. Gwelsom gyfarfod penaethiaid adrannau dyddiol hynod effeithiol lle mae materion allweddol yn cael eu trafod gan y tîm rheoli a chamau y cytunwyd i’w cymryd yn mynd yn ôl i’r meysydd perthnasol.

Mae’r staff gofal yn hyderus ac yn fedrus yn eu rolau. Maent yn cwblhau ystod o gyrsiau hyfforddi, gan gynnwys cyrsiau gloywi rheolaidd mewn meysydd gorfodol fel diogelu’r bobl sydd mewn perygl o niwed.

Mae ffeiliau personél y gweithwyr gofal yn drefnus, ond nid ydynt i gyd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Gwelsom fod rhai cofnodion yn aros i gael eu dychwelyd o’r archif ac felly nid ydynt ar gael yn y gwasanaeth fel y dylent fod, nid yw tystysgrifau geni ar gael i’r holl staff, nid yw rhai bylchau o ran hanes cyflogaeth wedi’u cofnodi’n llawn ac ni cheir tystiolaeth o pam yr oedd pobl wedi gadael rolau gofal blaenorol. Mae hwn yn faes i’w wella, ac er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i’r darparwr gymryd camau gweithredu a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn ein harolygiad nesaf.

Mae’r unigolyn cyfrifol wedi cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd rheolaidd drwy ymweld â’r cartref i siarad â’r unigolion a’r staff gofal ac i adolygu dogfennau. Mae’r unigolyn cyfrifol yn cwblhau archwiliadau manwl, trylwyr a chynhwysfawr o ansawdd y cymorth a ddarperir yn ogystal â’r modd y mae’r cartref yn cael ei redeg yn ehangach. Mae’r adroddiadau yn amlygu lle mae’r cartref yn perfformio’n dda yn ogystal â meysydd i’w gwella.

| Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 35 | Nid yw cofnodion personél y staff i gyd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 21/09/2022